# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Dethol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus held at on Dydd Mawrth, 3ydd Hydref, 2023 at 10.00 am**

| Councillors Present | Officers in Attendance |
|---|---|
| County Councillor Armand Watts (Chairman)<br>County Councillor Penny Jones, (Vice Chairman)<br><br>County Councillors: Jill Bond, Jan Butler, Steven Garratt, Penny Jones, Malcolm Lane, Dale Rooke, Frances Taylor, Armand Watts and Meirion Howells | Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Sharran Lloyd, Rheolwr Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Lleol<br>Nicola Prygodzicz<br>Chris Overs, Nyrs Adrannol<br>Tracey Pw, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>Dan Davies, Prif Swyddog Busnes<br>Lloyd Hambridge, Cyfarwyddwr Rhanbarthol yr Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol<br>Susan O'Brian, Arweinydd Integreiddio a Thrawsnewid Blynyddoedd Cynnar<br>John Pearson, Rheolwr Democratiaeth Leol<br>Paul Underwood, Rheolwr Cyffredinol Dros Dro Gofal Heb ei Drefnu<br>Beth Watkins, Rheolwr Dechrau'n Deg |

**APOLOGIES:** County Councillor Tudor Thomas

**Nodyn: mae ffocws y cofnodion canlynol ar yr her gan aelodau – i gael y drafodaeth lawn, mae recordiad o’r cyfarfod ar gael drwy**
**www.youtube.com/watch?v=qjokQyqIXqc&list=PLLmqn4nAaFJCILetq56Hon4uJ3r_La-et&index=6**

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant wedi’u derbyn.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

   Nid oedd dim aelodau o’r cyhoedd yn bresennol.

3. **Cynllun Peilot Integreiddio a Thrawsnewid Blynyddoedd Cynnar a Dechrau'n Deg**

Rhoddodd Beth Watkins a Susan O'Brian y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd diweddar. Atebodd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Nicola Prygodzicz a Chris Overs gwestiynau'r aelodau gyda Beth Watkins.

**Pwyntiau allweddol a grybwyllwyd gan Aelodau'r Pwyllgor:**

- Croesawodd yr Aelodau'r cynnydd cadarnhaol a wnaed wrth fynd i'r afael â rhai o'r materion ers i'r Pwyllgor graffu ar y mater yn yr haf. Dywedodd Aelod ei fod yn credu bod gormod o alw am gyrsiau ymwelwyr iechyd yn hanesyddol a holodd a oedd y nifer is o bobl sy'n hyfforddi'n dod yn ymwelwyr iechyd yn ymwneud â materion recriwtio a chadw cyffredinol a holodd sut y gellid unioni hyn. Tynnodd Aelod arall sylw at y ffaith bod staff wedi'u secondio i rolau gwahanol yn ystod y pandemig a'u bod yn gallu dysgu sgiliau newydd. Roeddynt yn cwestiynu a allai'r arfer hwn ddarparu cyfleoedd datblygu a hefyd ddod â sefydlogrwydd i'r gweithle drwy reoli bylchau mewn staffio. Tynnodd y Cadeirydd sylw hefyd at yr ymgyrch recriwtio rai blynyddoedd yn ôl mewn gwledydd Ewropeaidd a arweiniodd at gymwysterau trosglwyddadwy ac awgrymodd mewn perthynas ag argyfwng Wcráin, y gallai fod cyfle recriwtio posibl.
- Roedd llwyth achosion ymwelwyr iechyd o 110 o blant yn cyferbynnu â'r llwyth achosion gofal cymdeithasol o 25-30, gyda'r Aelodau'n pryderu sut y gellid lleihau nifer yr achosion.
- Teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig parhau i gael sgyrsiau gyda Llywodraeth Cymru i dynnu sylw at unrhyw faterion adnoddau.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion, Beth Watkins a Susan O'Brian am eu gwaith caled parhaus a diolchodd i'r Bwrdd Iechyd am eu mewnbwn, gan gydnabod bod cynnydd wedi'i wneud ers y craffu blaenorol.

## 4. <u>Gwasanaethau Deintyddiaeth (gan gynnwys y gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc)</u>

Siaradodd Lloyd Hambridge â'r Pwyllgor ac ateb cwestiynau'r Aelodau gyda Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Nicola Prygodzicz.

**Pwyntiau allweddol a grybwyllwyd gan Aelodau'r Pwyllgor:**

- Dywedodd yr Aelodau fod gofalwyr maeth yn mynegi anhawster gwirioneddol i gael mynediad at wasanaethau i bobl ifanc yn eu gofal.
- Tynnodd Aelod sylw at y modd yr oedd Glannau Hafren wedi colli practis deintydd yng Nghil-y-coed ac nad oes llawer o gapasiti ar gyfer gwasanaethau'r GIG yng Nghas-gwent a holodd beth oedd yn cael ei wneud i gymell deintyddion newydd gymhwyso i fynd i'r GIG yn hytrach na phractis preifat.

- Roedd preswylydd wedi rhoi gwybod i Gynghorydd nad yw wedi gallu cael dannedd gosod ers bron i 2 flynedd, oherwydd nad yw'n gallu cael yr atgyfeiriad cychwynnol gan ddeintydd. **CAM GWEITHREDU – Lloyd i ddilyn achos unigol i fyny gyda manylion gan y Cynghorydd Rooke.**
- Gofynnodd Aelod faint o bractisau deintyddol y GIG sydd yn y broses adfachu, a oedd hyn yn cael ei archwilio. Mae pryder y gallai deintyddion y GIG fod yn gwneud achosion brys yn unig, yn hytrach na gwaith ataliol, gan arwain at foddhad swydd gwael a phractisau ddim yn hyfyw. **CAM GWEITHREDU – Lloyd i ddarparu manylion**.
- Gofynnodd Aelod a oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ymwybodol o ba mor enbyd yw'r sefyllfa ddeintyddol yng Nghas-gwent, gan ddadlau y gallai ardal 'gyfagos' edrych yn agos ar fap, ond nad yw o reidrwydd yn wir ar lawr gwlad, er enghraifft, os nad oes bysiau uniongyrchol. Gofynnodd yr Aelod pam fod cyfeiriadau yn cael eu gwneud i Drefynwy, os oes gwasanaethau eisoes ar gael yn yr ysbyty cymunedol yng Nghas-gwent? **CAM GWEITHREDU – Lloyd i ddarparu ymateb.**
- Amlygodd Aelod fod y cyhoedd yn ansicr gyda phwy i siarad, i gael y wybodaeth berthnasol a bod angen i'r broses atgyfeirio at wasanaethau fod yn llawer cliriach.
- Amlygodd aelod, gyda 450 o gartrefi newydd yn yr arfaeth ar gyfer Magwyr a Gwndy yn y 3 blynedd nesaf a dwy ddeintyddfa yn gwbl llawn, pa gynlluniau y bwriedir eu darparu ar gyfer yr ardal hon. **CAM GWEITHREDU: Lloyd i ddarparu ymateb.**
- Awgrymodd y Cadeirydd ei bod yn ymddangos bod recriwtio Ewropeaidd wedi bod yn llwyddiannus yn flaenorol a holodd sut y byddem yn mynd i'r afael â'r diffyg posibl o recriwtio dramor ar ôl Brexit.
- Gofynnodd Aelod arall a oes cymhellion i fyfyrwyr gael mynediad i'r GIG trwy leoliadau, gan ganiatáu i ddeintyddion wneud gwaith manylach.
- Amlygodd Aelod y gallai defnyddio 'Llaes' fod yn fuddiol ar gyfer ymgynghori.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolchodd y Cadeirydd i Lloyd am ei gyflwyniad ac am ateb cwestiynau'r Aelodau a chytunwyd y byddai'r camau gweithredu'n cael eu hanfon ymlaen at BIPAB i ddarparu ymateb yn dilyn y cyfarfod.

## 5. Uned Mân Anafiadau yn Nevill Hall: Sesiwn Holi ac Ateb

Cyflwynodd Nicola Prygodzicz y drafodaeth i'r Pwyllgor, a chafwyd cyflwyniad gan Paul Underwood a gyda'i gilydd, atebwyd cwestiynau'r Aelodau.

**Pwyntiau allweddol a grybwyllwyd gan Aelodau'r Pwyllgor:**

- Amlygodd yr Aelodau fod y cyhoedd ar hyn o bryd yn aneglur iawn ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael a'r lleoliadau, gyda llawer o bobl yn ansicr ble i fynd. Mae angen cyfathrebu'n glir â'r cyhoedd sut i gael mynediad at yr holl wasanaethau. Soniodd yr Aelodau am brofiadau gwahanol iawn mewn ysbytai gwahanol, gyda phobl yn dweud nad yw'r gwasanaeth yn gydgysylltiedig neu'n gysylltiedig yn dda â gwasanaethau yn Lloegr.
- Holodd yr Aelodau pam na ellir cyfeirio mân anafiadau i Nevill Hall yn y Grange, er mwyn osgoi ciwiau hir, gan nodi bod ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos pryder cyffredinol y cyhoedd am wasanaethau brys a rhestrau aros.
- Cwestiynodd yr Aelodau effeithiolrwydd yr ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus ac awgrymwyd bod angen ymgyrch yn y cyfryngau wedi'i thargedu, yn hytrach na dosbarthu taflenni.
- Gofynnodd yr Aelodau a yw'r Uned Mân Anafiadau yn Nevill Hall yn cael ei chwtogi oherwydd y problemau cyllidebol ehangach a beth yw'r arbedion cyllidebol y bydd y cynnig yn eu cyflawni, yn enwedig o ystyried na fydd gostyngiad mewn staff. Eglurwyd blaenoriaethau defnydd a gwariant.
- Mynegodd Aelodau bod pryder mawr gan drigolion bod y Grange yn rhy bell mewn sefyllfa o argyfwng ac nad oes darpariaeth leol y gallant ddibynnu arni, yn enwedig yr achos yng ngogledd y sir a bod y modd y mae gwasanaethau wedi eu dosbarthu. gwaethygu'r sefyllfa.
- Cynigiodd Aelod enghraifft o'i phrofiad anodd gyda pherthynas agos a chytunodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ymchwilio i hyn pe bai'r Aelod yn darparu rhagor o fanylion y tu allan i'r cyfarfod. **CAM GWEITHREDU: Y Cynghorydd Sue Riley i roi rhagor o fanylion i Paul Underwood.**
- Amlygodd y Cadeirydd fod yna fater ehangach o ymgynghori a'r hyn y gellir ei wneud i argyhoeddi'r pwyllgor a'r cyhoedd y bydd BIPAB yn gwrando ar yr hyn y mae pobl ei eisiau.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Weithredwr a'i chydweithwyr am fod yn bresennol i ateb cwestiynau'r Aelodau a nododd fod y penderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud yn anodd iawn ac anogodd BIPAB i wrando ar adborth y cyhoedd.

6. **I nodi dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf: 23ain Hydref 2023**

The meeting ended at **1.00 pm**